

13.2 DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU CADAIR ATHRO ER ANRHYDEDD

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU CADAIR ATHRO ER ANRHYDEDD

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adran hon yn y Llawlyfr Academaidd yn disgrifio'r gweithdrefnau a fabwysiedir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer dyfarnu Cadeiriau er Anrhydedd.

2. Eligibility

2.1 Gellir dyfarnu'r teitl Athro er Anrhydedd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd i bobl sy'n ysgolheigion nodedig ac sy'n allanol i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

3. Meini Prawf ar gyfer Cadair Anrhydeddus Prifysgol Metropolitan Caerdydd

3.1 Bydd rhaid i bob ymgeisydd am Gadair Anrhydeddus fod yn gallu dangos y canlynol yn eu cais:

- (i) Cyfraniad eithriadol cyson er mwyn lledaenu ac ymestyn gwybodaeth drwy un neu unrhyw un o'r canlynol mewn cyfuniad:
 - a. *Dysgu ac Addysgu* wedi'u cefnogi gan dystiolaeth briodol, er enghraifft: portffolio o gyflwyniadau a chyhoeddiadau addysgol uchel eu parch, dylunio cwricwla a dangosyddion cydnabyddedig ar lefel ryngwladol megis cymrodoriaeth addysgu genedlaethol, profiad allanol o werthuso dysgu ac addysgu (e.e., QAA) a chyllid ar gyfer datblygu dysgu ac addysgu;
 - b. *Ymchwil* wedi'i gefnogi gan dystiolaeth briodol, er enghraifft: portffolio o gyhoeddiadau ymchwil rhyngwladol sylweddol wedi'u hadolygu gan gymheiriaid neu allbwn a fydd yn berthnasol i'r ddisgyblaeth, cyllid allanol ar gyfer ymchwil arwyddocaol a dylanwadol profiad llwyddiannus yn goruchwyllo ac yn arholi ymchwil; a dangosyddion cydnabyddedig megis gwobrau, gwahoddiadau i draddodi prif gyflwyniadau rhyngwladol a swydd ar gymdeithasau, byrddau a phwyllgorau allanol;

c. *Arloesedd* wedi'i gefnogi gan dystiolaeth briodol, er enghraifft: portffolio o allbwn gwerthfawr sy'n berthnasol i weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd neu entrepreneuriaeth, record lwyddiannus o sicrhau cyllid allanol ar gyfer arloesedd; datblygu eiddo deallusol a dangosyddion cydnabyddedig ar lefel ryngwladol megis rolau ymgynghorol allanol blaenllaw a chyllid ar gyfer prosiectau arloesol;

(ii) arweinyddiaeth sylweddol a/neu brofiad rheoli academiaidd-gysylltiedig a fydd yn berthnasol i gais unigol yr ymgeisydd.

4. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr

4.1 Mae'r grym gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr i ystyried ceisiadau am Gadeiriau Personol.

4.2 Mae Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr wedi'i ffurfio o:

- Y Llywydd a'r Is-Ganghellor (Cadeirydd)
- Y Dirprwy Academiaidd i'r Is-Ganghellor
- Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesedd
- Dirprwy Is-Ganghellor Gwella Myfyrwyr
- Tri Athro wedi'u hethol gan y Bwrdd Academiaidd

4.3 Bydd y tri aelod etholedig yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd â'r posibilrwydd o gael eu hail-benodi am hyd at gyfanswm o bedair blynedd yn ddi-dor.

4.4 Yn ogystal bydd dewis gan y Pwyllgor i gyfethol aelodau mewnol dros dro i'r Pwyllgor lle y bydd hynny'n briodol.

4.5 Bydd yn ofynnol bod aelodau Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau o ran ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

5. Y Weithdrefn Ddyfarnu

5.1 Caiff ceisiadau ar gyfer Cadair er Anrhydedd eu hystyried ar ddau bwynt yn y flwyddyn academiaidd yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn. Caiff dyddiadau cyflwyno eu cyhoeddi yn flynyddol ar wefan AD. Gweler y siart llif yn Atodiad 1 am fwy o wybodaeth

- 5.2 Bydd ymgeiswyr yn cyflwyno cais yn ysgrifenedig i Adnoddau Dynol wedi'i gyfeirio i'r Llywydd a'r Is-Ganghellor. Dylai'r cais gynnwys cyfiawnhad manwl o blaid y dyfarniad a fydd heb fod yn fwy na phedwar tudalen A4 wedi'u teipio'n safonol a fydd yn cyfeirio'n glir at y meini prawf datganedig yn adran 3 ynghyd â CV llawn. Dylai ymgeiswyr gyfeirio'n benodol ac yn fanwl at y canlynol:
- (i) Pa un o'r dangosyddion ymestyn a lledaenu gwybodaeth yn 3.1(i) y mae eu cais yn canolbwyntio'n *bennaf* arno (h.y. dysgu ac addysgu, ymchwil, arloesedd) ynghyd â gwybodaeth ychwanegol a fydd yn ymdrin â'r dangosyddion eraill;
 - (ii) Y teitl Athro er Anrhydedd a fwriedir ar gyfer yr ymgeisydd os bydd yn llwyddiannus (e.e., *Athro Seicoleg er Anrhydedd*).
- 5.3 Bydd ymgeiswyr hefyd yn darparu enwau tri chanolwr sy'n gallu cadarnhau manylion y cais a rhoi sylwadau ar lwyddiannau'r ymgeisydd o ran y meini prawf perthnasol ar gyfer Cadair Athro er Anrhydedd y mae'r ymgeisydd wedi ysgrifennu yn eu herbyn.
- 5.4 Dylai enwebiad ysgrifenedig manwl a llawn gan Ddeon Ysgol yr ymgeisydd (neu rywun cyfatebol) ddod gyda'r cais. Dylai'r enwebiadau gynnwys manylion y rôl y bydd y person enwebedig yn ei berfformio o fewn yr Ysgol neu o fewn Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ystod cyfnod y penodiad. Dylai Deon yr Ysgol anfon enwau tri chanolwr arall hefyd.
- 5.5 Bydd proses ymgeisydd ar gyfer Cadair er Anrhydedd yn cynnwys dau gam. Y cyntaf yw pan fydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn ystyried cais yr ymgeisydd er mwyn sicrhau a oes achos *prima facie* neu beidio i'r cais gael symud ymlaen. Ar gyfer ymgeiswyr sydd eisoes yn Athro mewn sefydliad arall yn y DU, bydd *prima facie* wedi'i gytuno'n awtomatig.
- 5.6 Os caiff ei benderfynu na ellir sicrhau achos *prima facie*, bydd y Brifysgol yn rhoi adborth i'r ymgeisydd yn unol â hynny.
- 5.7 Os mai'r penderfyniad yw y gellir sicrhau achos *prima facie*, bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn penderfynu pa ganolwyr i gysylltu â nhw i gael eu sylwadau. Rhaid dewis tri enw o leiaf o'r chwech fydd yn cael eu rhoi.
- 5.8 Yna bydd y cais yn cael ei symud ymlaen i'w ystyried yn y cyfnod dyfarnu (cam 2): bydd AD yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd ac yn ysgrifennu am dystlythyrau.

- 5.9 Bydd y Pwyllgor yn edrych eto ar gais yr ymgeisydd ynghyd â'r tystlythyrau a dderbyniwyd ac yn dod i benderfyniad ar y cyd. Bydd y grym ganddyn nhw hefyd i argymhell, os bydd angen, y dylid cael cyngor allanol annibynnol ychwanegol.
- 5.10 Bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd beth yw'r canlyniad. Hysbysir y Bwrdd Academiaidd ynglŷn â'r dyfarniad hefyd.

6. Amodau

- 6.1 Bydd y penodiad am gyfnod o hyd at bum mlynedd yn y lle cyntaf a bydd ailbenodiad yn bosib am gyfnodau tebyg â chymeradwyaeth Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr ac yn amodol ar gais yr Ysgol berthnasol a chytundeb yr unigolyn dan sylw.
- 6.2 Gall yr Ysgol berthnasol drefnu i gael mynediad i'r gwasanaethau TG a Llyfrgell ac i adeiladau'r Brifysgol os bydd angen. Caiff Athrawon er Anrhydedd ddefnyddio'u teitl mewn cyswllt â'r Brifysgol ar gyfer dibenion cyhoeddi/cyhoeddusrwydd ond ni fydd y teitl yn awgrymu unrhyw statws cyflogaeth neu hawl i gyflog.
- 6.3 Mae Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cadw'r hawl i dynnu teitl Athro er Anrhydedd nôl ar unrhyw bryd. Bydd y Bwrdd Academiaidd yn cael gwybod am gollir teitl a'r dyddiad y digwyddodd hyn.
- 6.4 Ni chaiff pobl a benodir yn Athrawon er Anrhydedd fod yn arholwyr allanol neu'n ganolwyr ar gyfer ymgeiswyr Doethuriaeth uwch yn y Brifysgol. Ond caiff Athrawon er Anrhydedd fod yn gymwys i weithredu:
- .1 mewn amgylchiadau eithriadol, fel aelodau mewnol o Bwyllgorau Penodi ar gyfer Darllenwyr a Chadeiriau Personol, pan fydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:
 - (a) bod swydd, neu y bu swydd, gan y person dan sylw a fydd yn ei (g)wneud e/hi'n gymwys i roi barn wybodus ar allu tebygol yr ymgeisydd i gyflawni'n foddhaol y dyletswyddau a ddisgwylir gan Athro neu Ddarlennydd o sylwedd mewn prifysgol ym Mhrydain;
 - (b) am fod y person yn flaenllaw yn ei faes/maes neu oherwydd ei (g)wybodaeth ddwys o'r meysydd ysgolheictod penodol a nodir mewn achos arbennig, bydd y person dan sylw mewn sefyllfa well

i gynnig y lefel briodol o gyngor arbenigol nag unrhyw ddeiliad Cadair Bersonol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

7. Cyfle Cyfartal

7.1 Yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau. Felly caiff unigolion ddirchafiad ar sail eu haeddiant a'u gallu. Bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn ystyried amgylchiadau anacademaidd a allai fod wedi cyfyngu neu fod wedi rhwystro datblygiad gyrfa broffesiynol ymgeisydd o ran maint yn hytrach nag ansawdd yr allbwn a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r teitl.

Atodiad 1: Amserlen

Cais i'w gyflwyno ynghyd ag enwau tri chanolwr. Enwebiad y Deon (neu rywun cyfatebol) i'w gyflwyno ag enwau tri chanolwr arall.



AD i ddosbarthu'r cais. Enwebiad y Deon (neu rywun cyfatebol) ag enwau chwe chanolwr i Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr.



Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr i gyfarfod i benderfynu ar achos *prima facie* a pha ganolwyr i'w defnyddio os cytunir ar yr achos.



AD i ysgrifennu at ddewis canolwyr y Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr i gael tystlythyrau.



AD i ail-ddosbarthu'r cais a llythyr y Deon (neu rywun cyfatebol) ynghyd â'r holl dystlythyrau a dderbyniwyd.



Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr i gyfarfod er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cais.